5.251

X20521586S

# TY NEWYDD Y WENALLT, 1909.

Y Wenallt, hoff anedd, a chwalwyd,
Y muriau a dynwyd i lawr,
Y chwalwr a ddeuodd i fyny,
'Does gareg ar gareg yn awr;
Yr aelwyd hen ffasiwn fantellfawr,
Lle treuliwyd aml orig yn llon,
A'i setel, y gornel glyd ddiddos,
Nid oes ond y fan lle bu hon.

Ond chwaled y chwalwr a chwalo,
Er cymaint y distryw wnaeth o,
Y Wenallt a saif mewn eglurder
Hyd heddyw ar leni ein co';
A thra byddo ffun yn ein ffroenau
Drych adgof a'i dengys o hyd,
Hyd bythoedd fe saif yn ein meddwl
Mor eglur â thŷ yn y byd.

Fe erys ei ffurf yn ein gwyddfod,
Ei furiau gwyngalchog a'i dô,
Yr ardd fach brydferthai ei wyneb,
Ei ffenest a'i dalcen bach o;
Er nad ydoedd wych ac addurnol
A helaeth fel llawer o dai,
Nid ydoedd ein serch tuag atto
Er hyny un gronyn yn llai.

Er coledd mawr serch at a fuodd,
Na laesed ein parch i'r hyn sydd,
I ddynion a gwledydd a theioedd,
Fe wyddom mae'u tymhor a'u dydd;
Pob parch i Miss Williams ac Ifor
Am feddwl a llunio mor llawn,
Drwy hyny caed sail i'r anturiaeth
A modd gallu d'weyd,—Da iawn.

Dafydd Parry, Llandderfel, ddyn gwrol,
Oes achos rhoi Jones wrth ei gwt ?
Efe oedd yr arch-adeiladydd
A'i lluniodd mor hynod o dwt;
Efe yw saer coed yr adeilad,
Mae'n grefftwr deheuig, mi wn,
Pan fo gyda'i forthwyl a'i fwyall,
Yr unwedd â phan efo 'i wn.

Bu John Jones yr Hendref yn ddiwyd
Yn hollti y cerrig o dde,
Ag ebill a phylor yn fedrus,
Does gerrig o'u bath yn y lle;
Er c'leted y cerrig a driniai
Dan chwiban y gwnai ef y gwaith,
Nid chwiban pen-chwiban chwaith ydoedd—
Yn fuan d'ai'r garreg dan graith.

John Jones gyda hyn 'maflai ynddi,
Bryngoleu, un goleu yw e,
A'r celfydd ben saer a'i hebryngai
Yn daclus gysonaidd i'w lle;
Ei weled yn mesur a thrafod
Y cerrig, priddfeini a'r mort,
Wnai 'i ddynion, yn hen ac yn ieuainc
Gyd-floeddio—Wel dyma'r iawn sort.

Edward Griffiths, Glan'rafon, oedd yma
Yn eilydd rhagorol i'r gwr,
Yn fedrus yn codi 'r adeilad
Yn debyg i gastell neu dŵr;
A Thedi, ië Tedi, oedd hefyd
Yn brysur yn gwneuthur ei ran,
Am gymrwd a thendio, ei hafal
Ni welwyd mewn gwlad nac mewn llan.

John Edwards, Llandderfel, dan siarad,
Ond cofier, nid siarad i gyd,
Na, na, mae y gwaith gwblhäodd,
Yn tystio i'w led ac i'w hyd;
Bu ddyfal yn estyn ei gymhorth
I'r seiri gwaith maen a gwaith coed,
A bron iawn na fentrwn ni ddwedyd
Na bu 'r un o'i fath o erioed.

Charles Jones, o Landderfel, a'i gwmni,
(Llandderfel, Llandderfel, o hyd,)
Fu'n gosod y llechi er gwneuthur
Yr anedd yn ddiddos a chlyd;
Ffarwel i hen furiau anwastad
A'u cerrig fel allan o drefn,
Mae'r ty yn gyffelyb i balas,
Pob 'stafell a'i muriau mor lefn.

Dan ffafar y nefoedd mewn tywydd,
A'r dynion yn gweithio mewn trefn,
Y ty a gyfodwyd yn gyflym—
Daeth Wenallt yn Wenallt drachefn;
Mae pawb ag un llais yn cyhoeddi
Gadarned a hardded ei ddrych,
Hir oes a phob clod fo i'r dynion
Godasant adeilad mor wych.

Llangollen.

R. E. Roberts.

393/16

W12,390